Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:
Adroddiad Blynyddol 2024-25

Mehefin 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:**
# Adroddiad Blynyddol 2024-25

Mehefin 2025

senedd.cymru



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

Rôl y Pwyllgor a'i aelodau .......... 6

Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau .......... 7

**2. Casgliadau ac arsylwadau** .......... **13**

Rheolaeth ariannol .......... 13

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol .......... 14

Archwiliad mewnol .......... 15

Rheoli risg .......... 16

Fframwaith sicrwydd .......... 19

Fframwaith cynllunio strategol .......... 20

**3. Edrych tua'r dyfodol** .......... **21**

**4. Casgliadau** .......... **22**

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd** .......... **23**

**Atodiad 2: Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor** .......... **28**

**Atodiad 3: Gweithgarwch Archwilio Mewnol** .......... **29**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn perthynas â fframweithiau'r Comisiwn o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol, sicrwydd a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio. Mae'n tynnu sylw at y canlynol: cylch gwaith y Pwyllgor; y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r arsylwadau cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2025-26, a'i gasgliadau cyffredinol.

**3.** Bu'n flwyddyn arall o gyflawniad a pherfformiad sylweddol, gyda darnau mawr o waith yn cael eu datblygu a'u cyflawni, fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi dilyn cynnydd ar y rhain drwy gydol y flwyddyn, a chyflwynir manylion amdanynt yn adran *Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau* yr adroddiad hwn. Mae'r adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yn canolbwyntio ar waith craidd y Pwyllgor.

## Rôl y Pwyllgor a'i aelodau

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Rôl gynghori sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ar ba mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw sicrwydd, gan gynnwys o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau cyfrifyddu ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn (yr Adroddiad Blynyddol), gan gynnwys Datganiad Llywodraethu y Swyddog Cyfrifyddu (y Datganiad Llywodraethu). Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr o'u gwybodaeth a'u profiad o ran edrych tua'r gorwel ar gyfer risgiau a phroblemau posibl.

**5.** Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**Atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF.

**6.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr allanol, ac mae'n cael sicrwydd ar hyn gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Blynyddol. Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor ac yn cynnal sesiwn breifat flynyddol gyda'r Pwyllgor. At hynny, mae Archwilio Cymru a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiwn yn cael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn

flynyddol ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio a'r archwilwyr mewnol gan eu bod yn chwarae rhan strategol allweddol wrth roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Comisiwn.

**7.** Mae **aelodau presennol** y Pwyllgor (Comisiynydd a thri Chynghorydd Annibynnol, y mae un ohonynt yn Gadeirydd) wedi'u hamlinellu isod. Mae hyn hefyd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn ac yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor (**Atodiad 1**).

- Robert Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor
- Hefin David AS, Comisiynydd
- Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol
- Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol

**8.** Mae Dr Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol a chyn-aelod o'r Pwyllgor, a'r Athro Uzo Iwobi, Cynghorydd Annibynnol, yn wahoddedigion sefydlog ym mhob cyfarfod.

**9.** Mae manylion am bresenoldeb swyddogion y Comisiwn a chynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**.

**10.** Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae'r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfod y Comisiwn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau

**11.** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor wedi parhau i adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yn ei gylch gorchwyl (**Atodiad 1**).

**12.** Fel y nodwyd yn adran *Cyflwyniad* yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyflawniadau'r Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae wedi cael briffiadau a diweddariadau rheolaidd gan uwch-swyddogion mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i'r pwyllgor ar feysydd gwaith allweddol ac wedi darparu her adeiladol, yn enwedig ar y risgiau cysylltiedig. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- cynnydd o ran datblygu a chyflawni'r rhaglenni sy'n ymwneud â'r Seithfed Senedd a Ffyrdd o Weithio, a phrosiectau mawr eraill, gan gynnwys y prosiect Pobl a Thaliadau;
- ymgorffori'r fframwaith cynllunio strategol;
- datblygu'r strategaeth gyllidebol, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chymeradwyo cyllidebau atodol, a chyllideb y Comisiwn ar gyfer 2025-26; a
- chynnydd ar gyflawni'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd.

**13.** Mae manylion am rôl y Pwyllgor o ran adolygu a chynghori ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ac archwiliad allanol, gan gynnwys: y Datganiad Llywodraethu; archwiliad mewnol; rheoli risg; a'r fframwaith sicrwydd ar gael yn adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yr adroddiad hwn.

Mae'n werth tynnu sylw at y canlynol yn y crynodeb hwn:

- archwiliad glân o gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2023-24 gan yr archwilwyr allanol, heb nodi unrhyw faterion o bwys;
- y symudiad i fodel sydd wedi'i allanoli'n llwyr ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol, dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Cyllid;
- y ffocws parhaus ar weithredu argymhellion archwilio mewnol;
- y gwaith parhaus o reoli a monitro risgiau corfforaethol y Comisiwn gan uwch-reolwyr, a datblygu a chymeradwyo datganiadau ar barodrwydd i dderbyn risg;
- y gwaith o esblygu Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn ar lefel gorfforaethol;
- y safonau uchel parhaus o wasanaeth a pherfformiad ar gyfer cyflawni busnes y Senedd, fel y dangoswyd yn ei Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol, ochr yn ochr â datblygu mecanweithiau ar gyfer rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau trawsnewidiol mawr ymhellach.

**14.** Roedd adran *Edrych Tua'r Dyfodol* o Adroddiad Blynyddol 2023-24 y Pwyllgor yn tynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd

diddordeb gweithredol ynddynt. Mae crynodeb byr o ystyriaeth y Pwyllgor o'r meysydd penodol hyn, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, wedi'u hamlinellu isod. Mae rhagor o fanylion am gynnydd yn erbyn y meysydd llywodraethu hyn ar gael yn y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddwyd fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

- Cynnydd o ran rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd ac ar ôl hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli rhaglenni a newid, a rheoli risg.

  Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglenni mawr hyn yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys newidiadau sylweddol i'r strwythurau llywodraethu wrth iddynt ddatblygu, yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, a'r tu allan iddynt. Yn eu plith mae:

  - diweddariadau corfforaethol gan Gyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion eraill ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r ddwy raglen, ar y strwythurau llywodraethu sydd ar waith, ac ar ymgysylltu â rhanddeiliaid;

  - rhannu dangosfwrdd diweddariadau rhaglen, fel y'i cyflwynwyd i Fwrdd Newid Senedd 26 a'r Bwrdd Gweithredol;

  - diweddariadau cynhwysfawr ar y risgiau cysylltiedig fel rhan o ystyriaeth y Pwyllgor o Gofrestr o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn; ac

  - ymchwilio'n fanwl i risgiau penodol, sef Diwygio'r Senedd (Mehefin 2024); y prosiect Bae 32 (Tachwedd 2024); a Phrosiectau Ystadau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd (Chwefror 2025).

  Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, trafododd y Pwyllgor hefyd bapur a gyflwynwyd gan y Pennaeth Llywodraethu ar reoli newid. Roedd hyn yn amlinellu sut roedd y Comisiwn yn ymateb i basio'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Cyflwynodd sefydlu'r Bwrdd Newid Senedd 26, ac ail-gyflunio'r ddwy brif raglen a fyddai'n adrodd iddo. Croesawodd y Pwyllgor y datblygiad hwn gan ei fod yn darparu eglurder o ran atebolrwydd a llinellau adrodd. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yr adroddiad hwn o dan y *Fframwaith Cynllunio Strategol*, a hefyd yn Natganiad Llywodraethu ac Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

- Esblygu ac ymgorffori’r fframwaith cynllunio strategol

  Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau ym mhob cyfarfod ar sut mae Fframwaith Cynllunio Strategol y Comisiwn yn gweithredu'n ymarferol. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

  - cynllunio corfforaethol a gwasanaeth:
  - y Grŵp Rheoli Portffolio;
  - y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig.

  Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yr adroddiad hwn o dan y *Fframwaith Cynllunio Strategol*, a hefyd yn Natganiad Llywodraethu ac Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

- Rheoli risgiau llywodraethu gwybodaeth

  Mae’r Pwyllgor wedi cael diweddariadau cynhwysfawr ar y risg Diogelu Data fel rhan o’i ystyriaeth o Gofrestr o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod ffurfiol. Mae'r diweddariadau hyn, a gyflwynir gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar lefel Cyfarwyddwr, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith y tîm Llywodraethu Gwybodaeth fel ffordd o liniaru'r risgiau. Cyflwynir adroddiadau ar doriadau data a digwyddiadau agos at ddigwydd i'r Pwyllgor yng nghanol a diwedd y flwyddyn hefyd fel rhan o Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu’r syniad o sefydlu Grŵp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth sydd â chylch gorchwyl a chylch gwaith y cytunir arnynt.

  Ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad manwl hefyd i risgiau sy'n ymwneud â defnydd y Comisiwn o ddeallusrwydd artiffisial. Mae rhagor o fanylion am y llywodraethu o amgylch defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gan gynnwys sefydlu Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial a Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial (y ddau dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr) ar gael yn adran *Rheoli risg* yr adroddiad hwn ac yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

**15.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, bu ei aelodau hefyd yn cefnogi'r Comisiwn ar weithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn, naill ai yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Pwyllgor neu yn eu swyddogaeth ehangach fel Cynghorwyr Annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2025 i graffu ar y Datganiadau Sicrwydd Corfforaethol a dogfennaeth ategol a'u herio er mwyn llywio Datganiad Llywodraethu y Swyddog Cyfrifyddu (mae rhagor o fanylion ar gael yn adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yr adroddiad hwn, o dan *Fframwaith Sicrwydd);*
- beirniadu Gwobrau Cynllun Cydnabod Staff 2024;
- aelodaeth o'r panel recriwtio ar gyfer y Prif Swyddog Pobl; ac
- aelodaeth o'r panel recriwtio ar gyfer aelodau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

**16.** Mae swyddogion y Comisiwn hefyd yn parhau i rannu gwybodaeth â'r Cadeirydd a’r Pwyllgor mewn amser real. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- cylchredeg dangosfyrddau diweddariadau cynnydd ar y rhaglenni’n ymwneud â’r Seithfed Senedd a Ffyrdd o Weithio;
- diweddariadau ar y prosiect Pobl a Thaliadau;
- lincs i drafodion ffurfiol y Senedd, megis sesiynau craffu y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd, ynghyd ag adroddiadau Pwyllgor perthnasol ac ymatebion y Comisiwn;
- cyhoeddiadau sy'n ymwneud â phenodiadau uwch; a
- chylchlythyrau, adroddiadau a diweddariadau perthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff, megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sefydliadau archwilio mewnol, a’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**17.** Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ar ystod o weithgareddau a wnaed gan y Gwasanaeth Llywodraethu a Chynllunio Strategol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y rhannau perthnasol o adran *Canfyddiadau ac arsylwadau* yr adroddiad hwn, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- y broses casglu sicrwydd i lywio'r Datganiad Llywodraethu, gan gynnwys newid dull ar y lefel gorfforaethol;
- y fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio;
- caffael, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau contract, dyfarnu contractau mawr ac adroddiad dadansoddi tueddiadau ar bob ymadawiad o weithdrefnau caffael arferol;
- trefniadau llywodraethu rhaglenni, gan gynnwys newidiadau a gyflwynwyd; a
- rheoli risg, gan gynnwys datblygu datganiadau ar barodrwydd i dderbyn risg.

# 2. Casgliadau ac arsylwadau

**18.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau ac arsylwadau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghylch ei raglen waith graidd. Mae manylion am sicrwydd y Pwyllgor mewn perthynas â meysydd eraill o weithgarwch y Comisiwn wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

## Rheolaeth ariannol

**19.** Penododd y Comisiwn Brif Swyddog Cyllid newydd ym mis Ionawr 2025 yn dilyn cyfnod o drefniadau dros dro. Ystyriodd y Pwyllgor fod y trefniadau trosiannol yn effeithiol o ran y wybodaeth a gyflwynwyd ar berfformiad ariannol a gosod cyllideb.

**20.** Parhaodd y Pwyllgor i gael diweddariadau ar gyllid ym mhob un o'i gyfarfodydd. Nododd reolaeth ofalus y Comisiwn o wariant yn erbyn y rhagolwg, a arweiniodd at gyflawni alldro o 0.22% yn erbyn y targed o 1.5% o'r gyllideb weithredol gymeradwy, a barn archwilio ddiamod ar gyfer cyfrifon 2023-24. Mae rhagor o fanylion am reolaeth ariannol a pherfformiad ar gael yn y Datganiad Llywodraethu, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**21.** Cafodd y Pwyllgor hefyd ei friffio'n fanwl ar ddatblygiad Cyllideb Atodol y Comisiwn a'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26. Yng nghyfarfod mis Chwefror 2025, rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid a'r Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gyllidebau, sy'n aelod o'r Pwyllgor hwn, gyfrif manwl o gylchred y gyllideb a'r ffyrdd yr oeddent wedi ymgysylltu â'r Aelodau. Roedd yr ymgysylltiad hwnnw'n arbennig o bwysig gan fod newid sylweddol yn y cais cyllideb i gefnogi Senedd estynedig yn 2026. Arweiniodd hyn at greu strategaeth ymgysylltu ar gyfer y broses o osod cyllideb 2025-26 a adolygwyd gan y Pwyllgor hefyd.

**22.** Croesawodd y Pwyllgor hefyd y diweddariad blynyddol ar bolisïau cyfrifyddu.

**23.** Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor a dywedodd na ddygwyd unrhyw achosion o weithgarwch twyllodrus gwirioneddol neu amheus i'w sylw yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban mewnol ychwaith.

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol

**24.** Rhoddodd y Pwyllgor gyngor ar lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, a oedd yn cynnwys adolygu'r naratif, y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu.

**25.** O ran naratif yr Adroddiad Blynyddol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddisgrifiad manwl a thrylwyr o'r cyflawniad yn erbyn nodau strategol y Comisiwn. Nododd hefyd y gwaith ymchwil a gynhaliwyd i sut y cafwyd mynediad at yr adroddiad ar-lein, a chroesawodd y camau a gymerwyd i wella hygyrchedd a thryloywder, a'r offer i'w defnyddio i fonitro darllenwyr yn well. Cafodd awgrym ynghylch egluro natur pob un o'r risgiau yn yr adran proffil risg ei ystyried.

**26.** Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024, nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon drafft (ISA260) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2023-24. Fe'i cyflwynwyd fel drafft gan fod mater heb ei ddatrys yn ymwneud ag oedi wrth dderbyn datgeliadau data pensiwn gan MyCSP. Roedd hwn yn fater i'r DU gyfan, yr oedd ei ddatrys yn dibynnu ar gyfarwyddyd gan Drysorlys EF. Trafododd y Pwyllgor y goblygiadau ar gyfer y farn archwilio ac amseriad ardystio cyfrifon. Cyflwynwyd fersiwn derfynol wedi hynny ac roedd y Pwyllgor yn gallu argymell llofnodi'r cyfrifon o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

**27.** Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r archwiliad glân heb unrhyw faterion sylweddol wedi'u nodi a bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol. Roedd pum argymhelliad yn codi o'r archwiliad ac aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn.

**28.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref barhaus rhwng yr archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol drwy gyfrwng y 'protocol cydweithio', sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor bob blwyddyn.

**29.** Croesawodd y Pwyllgor weld Datganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2023-24 yn gynnar ym mis Mai 2024, ac awgrymodd bwyntiau bach i'w hegluro a gafodd sylw. Cyflwynwyd fersiwn derfynol fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yng nghyfarfod mis Mehefin. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddatganiad cadarn ac yn adlewyrchiad cywir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiwn dros y flwyddyn. Cafwyd diweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu y flwyddyn flaenorol yn ystod y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**30.** Croesawodd y Pwyllgor hefyd olwg gynnar ar y naratif drafft ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft, ac amlinelliad o'r datganiadau ariannol.

## Archwiliad mewnol

**31.** Yn ystod 2024-25, newidiodd y Comisiwn yn ffurfiol i fodel ar gontract allanol ar gyfer ei wasanaethau archwilio mewnol, a phenododd Gyfarwyddwr Ymgysylltu darparwr trydydd parti y gwasanaeth archwilio mewnol yn Brif Swyddog Gweithredol Archwilio iddo. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn goruchwylio strategaethau, cynlluniau a pherfformiad o ran archwilio mewnol.

**32.** Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio Strategaeth Archwilio Mewnol tair blynedd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2024, ac yna cynllun blynyddol manwl ar gyfer 2024-25. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn ac yn fodlon ar y sicrwydd a gafwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio fod digon o adnoddau wedi'u dyrannu o hyd i gyflawni'r rhaglen. Mae hefyd yn croesawu'r ffocws parhaus ar gynnal cydbwysedd priodol o archwiliadau ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau ac yn nodi y caiff y cynllun hwn ei addasu i ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**33.** Mae manylion am yr adolygiadau archwilio a gwblhawyd, a'r rhai sydd ar y gweill, ar gael yn **Atodiad 3**.

**34.** Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi'r ymgysylltiad cadarnhaol parhaus gan reolwyr â'r tîm archwilio mewnol. Mae gan y Comisiwn fecanwaith ar waith i olrhain gweithrediad argymhellion archwilio.

**35.** Mae Adroddiad Blynyddol a Barn y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio ar gyfer 2024-25 yn nodi, yn gyffredinol, fod gan Gomisiwn y Senedd brosesau digonol ac effeithiol o ran rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch amseroldeb adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod digon o dystiolaeth i lunio'r Farn Flynyddol. Roedd o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad cywir o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac o effeithiolrwydd yr argymhellion.

**36.** Er eu bod y tu allan i'r dyddiad penodol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang Newydd (GIAS) ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025, yn cynrychioli newid sylweddol ym mholisi archwilio mewnol. Cadarnhaodd y Strategaeth Archwilio Mewnol wedi'i diweddaru, a'r Siarter Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2025, gydymffurfiaeth â'r safonau newydd hyn.

**37.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon gyda sicrwydd gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio bod annibyniaeth y rôl yn cael ei diogelu heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau.

**38.** Nododd Datganiad Sicrwydd Corfforaethol y Comisiwn yr angen i werthuso perfformiad archwilio mewnol yn 2025-26.

## Rheoli risg

### Prosesau adolygu ac adrodd

**39.** Parhaodd y Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn ystod y flwyddyn. Mae'n parhau i fod yn fodlon bod trefniadau ar gyfer nodi, rheoli, adolygu ac adrodd ar risgiau ar draws y Comisiwn yn ddigonol ac yn effeithiol. Cydnabu'r Pwyllgor hefyd ymdrechion parhaus y Rheolwr Risg a'r rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risg i gadw ffocws ar reoli risgiau ar bob lefel.

**40.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiwn o'r Gofrestr o Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd edrych tua'r gorwel ac ansawdd uchel cyson y broses adrodd ar risg. Mae hefyd yn croesawu'r adolygiad sylfaenol arfaethedig o'r rheolaethau risg, o ganlyniad i'r ymarfer mapio sicrwydd a gynhaliwyd i lywio'r Datganiad Llywodraethu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod adolygiad archwilio mewnol o reoli risg wedi'i gynnwys yn y rhaglen archwilio ar gyfer 2025-26 a fydd yn llywio datblygiadau pellach.

**41.** Mae rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer risgiau a'u rheoli ar gael yn y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

### Proffil risg

**42.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Gryno o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiadau trylwyr o rai risgiau unigol lle gall uwch-swyddogion roi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch eu rheolaeth effeithiol. Dyma'r risgiau penodol a ystyriwyd yn ystod 2024-25:

- y system Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd (Mai 2024)
- Diwygio'r Senedd (Mehefin 2024)
- Deallusrwydd Artiffisial (Gorffennaf 2024)
- prosiect Bae 32 (Tachwedd 2024)

- prosiectau ystadau sy’n ymwneud â diwygio’r Senedd (Chwefror 2025).

Mae rhagor o fanylion am y risgiau corfforaethol, a sut maent wedi newid yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn adran Proffil Risg Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**43.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan dri o'r deg risg corfforaethol sgôr difrifoldeb ‘coch’. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y graddfeydd risg uchel yn bennaf yn sgil dylanwadau allanol nad oes gan y Comisiwn fawr ddim rheolaeth drostynt, os o gwbl, anogodd swyddogion i barhau i ganolbwyntio ar leihau eu tebygolrwydd a’u heffaith cyn belled ag y bo modd. Cred y Pwyllgor, ynghyd â seiberddiogelwch, mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd yr un sy'n ymwneud â’r paratoadau ar gyfer Senedd ehangedig yn 2026 a thu hwnt, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn o fewn cyfyngiadau ariannol.

### *Seiberddiogelwch*

**44.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn rheoli risgiau seiberddiogelwch yn ystod y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2025, cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol i'r Pwyllgor ar seiberddiogelwch a oedd yn nodi lefel 'ddigonol' o sicrwydd ar gymhwyso rheolaethau. Mynychodd uwch-swyddogion TGCh y cyfarfod hwnnw hefyd i gyflwyno adroddiad ar Sicrwydd Seiberddiogelwch. Roedd y diweddariad yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddio Fframwaith Asesu Seiber, a chyflwynwyd papur pellach ar hyn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025 wedi hynny. Nododd y Pwyllgor fod y Fframwaith yn darparu dull strwythuredig a fframwaith y gallai archwilwyr ei ddefnyddio i asesu sut y caiff risgiau seiber eu rheoli.

**45.** Cyflwynwyd papur ar wahân ar ddiogelwch y gadwyn gyflenwi yng nghyfarfod mis Tachwedd hefyd. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau cynhwysfawr hefyd ar y risg gorfforaethol o ymosodiadau seiber ym mhob cyfarfod.

**46.** Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na fu unrhyw ddigwyddiadau seiberddiogelwch a arweiniodd at doriadau data yn 2024-25.

**47.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y camau a gymerwyd i ddiogelu’r seilwaith TGCh wedi parhau i ddiogelu’r sefydliad ac wedi galluogi’r sefydliad i gadw i fyny â’r bygythiad newidiol o ymosodiadau a oedd yn cynyddu yn eu nifer a’u soffistigeiddrwydd. Mae'n annog y Comisiwn i barhau i ganolbwyntio'n briodol ar faterion seiberddiogelwch a pharhau i bwysleisio pwysigrwydd arferion

seiberddiogelwch da, a chodi ymwybyddiaeth o’r risgiau a’r camau lliniaru gyda’r Aelodau a’u staff cymorth.

***Llywodraethu gwybodaeth***

**48.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data ac yn croesawu'r diweddariadau a ddarparwyd yn y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth yn atgyfnerthu ymhellach y sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni amcanion â blaenoriaeth.

**49.** Mae’r Pwyllgor hefyd yn cael diweddariadau ar unrhyw achosion o dorri diogelwch data neu achosion posibl yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2024-25, adroddwyd am naw toriad diogelwch data yn fewnol. Nid oedd unrhyw un o’r achosion hyn yn cyrraedd y terfyn ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**50.** Yn ystod y flwyddyn, ymgorfforwyd y swyddogaeth Rhyddid Gwybodaeth yn y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, ac mae'r tîm wedi cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros ddatblygu'r Fframwaith Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial, sy'n cynnwys y polisi Deallusrwydd Artiffisial, a dogfennu a monitro risgiau cysylltiedig. Mae'r tîm hefyd yn goruchwylio darpariaeth y Grŵp Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a'r Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial (gweler paragraff 51).

**51.** Mae'r Pwyllgor wedi croesawu dull gofalus y Comisiwn o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a'i gynnwys ar y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol. Mae wedi cael diweddariadau cynhwysfawr ar y risgiau ym mhob cyfarfod, ac wedi cynnal archwiliad manwl yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Mae dau grŵp wedi'u sefydlu, sef y Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial a'r Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial, y ddau dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei yrru gan drefniadau llywodraethu cadarn. Mae Polisi Deallusrwydd Artiffisial a chofrestr fanwl o risgiau, sydd wedi'i lleoli oddi tano, ac yn adrodd drwy risg gorfforaethol deallusrwydd artiffisial, wedi'u datblygu. Mae swyddogion hefyd wedi rhannu papurau gyda'r Pwyllgor wrth i hyn ddatblygu. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau defnydd diogel, moesegol a chydymffurfiol o dechnolegau deallusrwydd artiffisial.

### Parodrwydd i dderbyn risg

**52.** Mae'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cyfres o ddatganiadau ar barodrwydd i dderbyn risg sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datblygiad pwysig hwn yn esblygiad pellach Fframwaith Rheoli Risg y Comisiwn. Mae hefyd wedi nodi'r broses drylwyr o ymgysylltu ag uwch-reolwyr sydd wedi cynorthwyo gyda dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r datganiadau. Mae'r allbwn terfynol, h.y. y lefelau a'r datganiadau ar barodrwydd i dderbyn risg, hefyd wedi'i rannu gyda'r Pwyllgor a bydd yn dilyn eu defnydd ym mhapurau penderfyniad y Comisiwn gyda diddordeb.

## Fframwaith sicrwydd

**53.** Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn cynnwys proses gadarn ar gyfer casglu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar bob lefel ar draws y Comisiwn i lywio'r Datganiad Llywodraethu. Mae dull y Comisiwn yn seiliedig ar fodel 'tair llinell' Trysorlys EF sydd wedi'i fabwysiadu'n eang. Mae hyn yn darparu dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu i asesu lefelau sicrwydd ar reolaethau mewnol ac i amlygu unrhyw wendidau posibl fel y gellir mynd i'r afael â hwy.

**54.** Nid yw'r broses ar lefel y gwasanaeth wedi newid eleni, gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn cynhyrchu datganiadau a mapiau sicrwydd, sy'n cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwyr.

**55.** Eleni, mae'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r ddarpariaeth sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ar y lefel gorfforaethol. Mae'r newidiadau'n cynnwys llunio un Datganiad Sicrwydd Corfforaethol a gwblheir ar y cyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'i gyflwyno i'r Swyddog Cyfrifyddu. Ategwyd hyn gan dri map sicrwydd yn ymwneud â'r Fframwaith Llywodraethu, yr Egwyddorion Llywodraethu ac Egwyddorion Ategol a Rheolaethau Risg a gyflwynwyd hefyd i'r Swyddog Cyfrifyddu fel tystiolaeth ategol ar gyfer y datganiadau a wneir yn y Datganiad Sicrwydd Corfforaethol. Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella wedi'i lunio a bydd y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Mae rhagor o fanylion am hyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.

**56.** Darparwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn ac un aelod arall yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol i graffu a herio'r Datganiad Sicrwydd Corfforaethol a dogfennaeth ategol (mapiau sicrwydd).

Roedd y newidiadau a amlinellir ym mharagraff 55 yn rhannol mewn ymateb i sylwadau yn y gwaith craffu ar ddatganiadau blaenorol y Cyfarwyddwr, a oedd yn cynnwys yr awgrym y gallai'r datganiadau i'r Swyddog Cyfrifyddu fod yn fwy corfforaethol a thrawsbynciol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried drafftiau cynnar o'r Datganiad Llywodraethu ac yn cynghori ar ei gynnwys.

**57.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y broses ar gyfer casglu sicrwydd yn gadarn ac yn gymesur. Croesawodd yr esblygiad diweddaraf hwn o'r Fframwaith Sicrwydd a nododd y byddai'r dull yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn addas at y diben cyn proses casglu sicrwydd y flwyddyn nesaf.

## Fframwaith cynllunio strategol

**58.** Croesawodd y Pwyllgor y ffyrdd y cafodd Fframwaith Cynllunio Strategol y Comisiwn, sy'n cynnwys Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig tair blynedd treigl, Cynllun Corfforaethol dwy flynedd a chylch cynllunio blynyddol integredig, eu hymgorffori a'u halinio yn ystod y flwyddyn.

**59.** Yn y cyfarfod ar 8 Gorffennaf, cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor yn amlinellu cyflwyno Bwrdd Newid Senedd 26 fel y corff gwneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r cyfnod pontio i'r Seithfed Senedd. Mae rhagor o fanylion am gylch gwaith ac aelodaeth y Bwrdd hwn, a'r Fframwaith Cynllunio Strategol ehangach, ar gael yn adran *Trosolwg* yr Adroddiad Blynyddol o dan *Cynllunio strategol* ac yn adran *Cynllunio a mesur perfformiad* y Datganiad Llywodraethu.

**60.** Cafodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariadau ar yr argymhellion a wnaed i'r Bwrdd Gweithredol gan y Grŵp Rheoli Portffolio (dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cyllid) yn ystod y flwyddyn ar flaenoriaethau ar gyfer ariannu prosiectau. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran *Rheolaeth ariannol a pherfformiad* y Datganiad Llywodraethu.

**61.** Fel y nodwyd yn adran *Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau* yr adroddiad hwn (paragraff 11), cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd am y datblygiadau hyn yn ystod y flwyddyn. Croesawodd esblygiad pellach y strwythurau llywodraethu a oedd yn hanfodol i reoli newid trawsnewidiol.

# 3. Edrych tua'r dyfodol

**62.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd y Comisiwn, rhaid i'r rhain barhau i ddatblygu er mwyn iddynt fod yn effeithiol o hyd. Yn ogystal â'i weithgarwch rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb gweithredol yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2025-26 – mae'r rhain i raddau helaeth yn adlewyrchu'r meysydd i ganolbwyntio arnynt a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu:

- llywodraethu o ran rheoli newid;
- alinio strategaethau corfforaethol;
- adolygiad o drefniadau rheoli risg;
- darparu gwasanaethau archwilio mewnol; ac
- urddas a pharch.

**63.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych tua'r dyfodol a rhagweld problemau, heriau a risgiau a all godi yn y dyfodol, yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn ei flaenraglen waith. Er mwyn helpu i lywio hyn, bydd swyddogion a'r tîm clercio yn parhau i ddosbarthu diweddariadau perthnasol, a bydd y Cadeirydd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio Strategol, y Prif Swyddog Cyllid a swyddogion eraill yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn awyddus o hyd i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd lle gall ychwanegu gwerth.

# 4. Casgliadau

**64.** Mae'r Comisiwn wedi gweld datblygiadau sylweddol yn ei bolisi mewnol, ei brosesau llywodraethu a'i sicrwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei ddau brosiect mawr. Bu newidiadau hefyd o ran staff allweddol mewn sawl rôl hanfodol.

**65.** Byddai newid ar y raddfa hon yn heriol i unrhyw sefydliad ac mae'n drawiadol sut mae'r sefydliad cyfan wedi ymateb i'r her hon. Ffocws ac ymroddiad tîm y Comisiwn yw'r sicrwydd gorau y gellir ei roi y bydd newid yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus heb gynyddu ei amlygiad i risg. O ystyried hyn, mae'r Pwyllgor yn fodlon o hyd bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae’r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y dangosir gan y Fframwaith Sicrwydd, archwiliad allanol o’r cyfrifon, a’r gwaith parhaus a’r Adroddiad Blynyddol a’r Farn gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio.

**66.** Arsylwodd y Pwyllgor sut y parhaodd y Comisiwn i ddangos safonau llywodraethu uchel yn ystod y flwyddyn.

**67.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i’r Prif Weithredwr a’r Clerc a'i staff am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod mae'r Pwyllgor wedi parhau i fwynhau perthnasoedd gwaith da gyda staff y Comisiwn ac wedi canfod eu bod yn agored ac yn barod i herio. Mae'r cymorth a ddarperir gan y tîm clercio yn parhau i gael ei werthfawrogi'n fawr gan aelodau'r Pwyllgor.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

## CYLCH GORCHWYL

Mae Comisiwn y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion rheoli risg a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn diwallu anghenion Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

## AELODAETH

1. Dyma aelodau **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd**:

- **Hefin David**, AS, Comisiynydd;
- Tri chynghorydd annibynnol: **Robert Evans** (Cadeirydd); **Dr Mark Egan**; a **Menai Owen-Jones**.

## ADRODD

2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Comisiynydd sy'n aelod o'r Pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cynnwys fel papur i'w nodi mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol a gyhoeddir ar wefan y Senedd.

3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn fel arfer ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## CYFRIFOLDEBAU

4. Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio,

nifer y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y llythyr rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

5. Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn yn ei Adroddiad Blynyddol.

**HAWLIAU**

6. Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu:

   - gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
   - caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

**MYNEDIAD**

7. Bydd gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

**CYFARFODYDD**

8. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

9. Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

10. Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

11. Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

12. Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

13. Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## GOFYNION GWYBODAETH

14. Bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

   - adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risgiau'r Comisiwn;
   - adroddiad cynnydd gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio yn crynhoi:
     - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
     - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith archwilio mewnol;
     - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
     - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
     - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun archwilio mewnol ar waith;
   - adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
   - adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac

- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/achosion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.

15. Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol/y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Adroddiad Blynyddol a Barn y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar dorri rheolau diogelwch gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd ar seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni/prosiectau newid allweddol;
- crynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol; a
- gwybodaeth arall o berthnasedd neu ddiddordeb posibl, gan gynnwys:
    - papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwysigrwydd strategol;

- diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Taliadau'r Comisiwn;
- adroddiadau cenedlaethol fel y cânt eu llunio gan gyrff archwilio; a
- diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau sector cyhoeddus ehangach ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.

# Atodiad 2: Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor

Mynychodd yr uwch-swyddogion a chynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol a ganlyn gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc / Swyddog Cyfrifyddu
- Ed Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd
- Arwyn Jones – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Sian Wilkins - Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd
- Matthew Richards – Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd (o fis Tachwedd 2025), a fynychodd hefyd fel y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol cyn mis Tachwedd 2025
- Kate Innes – Prif Swyddog Cyllid (cyfarfodydd mis Ebrill i fis Gorffennaf 2024)
- Simon Hart – Prif Swyddog Cyllid Interim (cyfarfod mis Tachwedd 2024);
- Lisa Bowkett - Prif Swyddog Cyllid (o fis Chwefror 2025)
- Phil Boshier - Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio Strategol
- Lee Glover, Validera – Prif Swyddog Gweithredol Archwilio (o fis Mawrth 2024)
- Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl
- Anthony Veale, Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Archwilio Cymru
- Clare James – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru
- Kathryn Hughes – Clerc y Pwyllgor / Rheolwr Risg a Llywodraethu; a
- Buddug Saer – Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

# Atodiad 3: Gweithgarwch Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol wedi cyflawni rhaglen o archwiliadau yn ystod 2024-25. Isod ceir rhestr o'r adolygiadau archwilio a gwblhawyd:

- Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau - archwiliad ymgynghorol
- Treuliau'r Aelodau
- Gwiriad Iechyd Gwrth-dwyll
- Caffael i Dalu
- Cwynion a Chanmoliaeth
- Llif Arian, Trysorlys a Gweinyddu Bancio
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cynllunio Strategol
- Seiber – archwiliad ymgynghorol i werthuso parodrwydd ar gyfer asesiad yn erbyn y Fframwaith Asesu Seiber.

Ar adeg ysgrifennu, mae adroddiadau ar yr adolygiadau archwilio a ganlyn yn cael eu cwblhau: Y Gyflogres a Phensiynau; a Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau (archwiliad ffurfiol).





Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales